Pen Carreg Bryn y Môr

Daethpwyd o hyd i'r pen carreg cerfiedig diddorol hwn wrth ailadeiladu wal gerrig sych ar fferm Bryn y Môr ger y Fali yn ystod y 1950au. Mae'n pwyso 32kg, a chafodd ei greu o garreg unigol o dywodfaen bras. Mae'n anodd dweud o ble y daeth y garreg oherwydd mae clogfeini mawr i'w gweld yn y gwaddodion rhewlifol sy'n gorchuddio'r rhan fwyaf o Ynys Môn.

Mae twll mortais crwn i'w weld ar waelod y pen, sy'n golygu y gellir ei osod yn gadarn mewn lle amlwg, tra bod y cefn crwn yn awgrymu y bwriadwyd iddo gael ei weld o bob cyfeiriad. Hefyd, mae tyllau mân yn y pen ac mae'r rhain o bosib, yn cynrychioli gwallt. O dan yr ên mae yna nodwedd amlwg, yn rhedeg o un ochr i'r llall.

Mae'n anodd pennu dyddiad ar bennau carreg cerfiedig oherwydd pur anaml darganfyddir nhw mewn unrhyw gyd-destun archeolegol. Rhaid dyddio'r rhan fwyaf ohonynt yn ôl eu harddull – gan gymharu eu nodweddion gydag enghreifftiau eraill y gwyddys amdanynt. Yn y gwaelod ar yr ochr dde, gwelir llun o ben carreg a ddarganfuwyd wrth gloddio teml Rufeinig o'r 4edd ganrif yng Nghaerwent, Sir Fynwy. Mae'r ddwy enghraifft isod i'w gweld ar fur Eglwys Llanbedrgoch ac yn ôl pob tebyg, maent yn rhai Canoloesol.

Pennau carreg cerfiedig, Eglwys Llanbedrgoch

Mae pen Bryn y Môr yn cynnwys llygaid siâp almon y cysylltwyd nhw ers tro byd gyda phennau carreg cerfiedig cyn-hanesyddol cynnar. Fodd bynnag, mae arno hefyd fanylion pensaernïol, megis fel y sylfaen wastad a'r twll cynnal a allai awgrymu dyddiad diweddarach, o'r oes Ganoloesol efallai.

Pen Carreg Bryn y Môr, llun o'r ochr

Ar fenthyg gan Tabitha Mead